# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2163A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 13

Atodiad 2 – ffi archwilio 15

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2020 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r Cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, fe wnes i ail-lunio fy rhaglenni gwaith arfaethedig trwy ystyried sut orau i sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Fe ystyriais effaith yr argyfwng cyfredol ar gydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus a'u ffurf yn y dyfodol ac roeddwn yn amcanu at sicrhau na fyddai fy ngwaith yn amharu ar ymdrechion cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau hefyd ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Mae'n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar gyflawni peth o'm gwaith archwilio arfaethedig ond mae hefyd wedi ysgogi newidiadau cadarnhaol i'n ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd fy ngwaith i archwilio'r cyfrifon heb ei heriau, nid dim ond o ran sut a ble yr oeddem yn gwneud y gwaith, ond hefyd o ran rhoi sylw i ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn codi'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant i gyflawni'n unol â'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu cydymdrech gwych gan fy staff a swyddogion yr Ymddiriedolaeth i gofleidio a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg i'r materion niferus a oedd yn codi ac yn ystyriol ohonynt.

5 Ar ddechrau'r pandemig fe wnes i atal gwaith i gyhoeddi rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd yn nesáu at gael ei gwblhau, gan adlewyrchu capasiti cyrff a archwilir i gefnogi gwaith maes a oedd yn weddill a chyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu ffocws a dull rhai adolygiadau arfaethedig eraill i sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng. Mae ffrydiau gwaith newydd wedi cael eu cyflwyno, megis fy adolygiad o'r rhaglen Profi, Olrhain a

Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Ymddiriedolaeth eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2020.

8 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2020 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

9 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn ar ffurf drafft i'r Pwyllgor Archwilio ar 3 Rhagfyr 2020 ac mae fersiwn derfynol wedi'i chynnwys ym mhapurau cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 28 Ionawr 2021. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

11 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn faterol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i). Fodd bynnag, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, a oedd yn cyfarwyddo Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn staff clinigol y GIG a ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20.

12 Ni chanfûm unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20 nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu nas defnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20.

13 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy. Gan nad oedd unrhyw faterion a oedd yn haeddu cael eu hamlygu, ni osodwyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae’r Ymddiriedolaeth wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ar y cyfan yn ystod ei hymateb i COVID-19 gan gynnwys ffocws ar ansawdd; fodd bynnag, gallai wneud gwelliannau pellach o ran cofnodi penderfyniadau a rheoli risgiau;
- mae gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau a threfniadau adrodd effeithiol, er bod gwariant mewn perthynas â COVID-19 yn creu risg i fantoli’r cyfrifon yn ystod 2020-21;
- mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynlluniau gweithredol ymatebol sy’n ystyried yr adnoddau sy’n ofynnol ac a gaiff eu monitro ac yr adroddir arnynt yn rheolaidd, ochr yn ochr â datblygu cynlluniau strategol allweddol eraill yn barhaus; ac
- Mae’r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad clir i atal twyll, mae ganddi drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll ac mae’n gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.

15 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20. Trwy gyfrwng y datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian. Mae paratoi'r datganiadau'n elfen hanfodol o ddangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

18 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

19 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud ag effaith y Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019. Dygais fater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio hefyd.

20 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe nododd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn wrth Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 18 Mehefin 2020 ac wedyn wrth Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 25 Mehefin 2020. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oes unrhyw gamddatganiadau a nodwyd yn y cyfrifon, sy'n dal i fod heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon i ddechrau sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. |
| Materion arwyddocaol eraill | Gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad archwilio i dynnu sylw at ddatgeliadau yn Nodyn 24 i'r cyfrifon sy'n ymwneud ag effaith y Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, yn cyfarwyddo Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn staff clinigol y GIG a ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. |
| Materion arwyddocaol eraill | Fel rhan o'r archwiliad, fe amcangyfrifon ni fod £3.4 miliwn o Asedau Sydd Wrthi'n Cael Eu Hadeiladu (AUC) wedi cael eu dwyn ymlaen ar 1 Ebrill 2019 ac wedi aros fel AUC ar 31 Mawrth 2020. Rydym wedi cael eglurhad rhesymol gan swyddogion o'r rhesymeg dros ddal yr asedau hyn fel AUC trwy gydol y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi argymhelliad mewn adroddiad ar wahân i'r Ymddiriedolaeth yn pwysleisio'r angen i fonitro lefelau ei AUC yn rheolaidd i sicrhau bod asedau'n cael eu gweithredoli cyn gynted â phosibl a bod y risg o ddarfodiad yn cael ei leihau i'r eithaf. |

21 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2020 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

22 Mae fy archwiliad ar wahân o Gyfrifon y Cronfeydd Elusennol wedi cael ei gwblhau, ac ni chanfuom unrhyw faterion yr oedd angen eu gwneud yn hysbys i'r Ymddiriedolwyr. Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cytuno ar y Cyfrifon ar 26

Tachwedd 2020 ac wedi hynny byddwn yn llofnodi ein Hadroddiad Archwilwyr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2020.

## Rheoleidd-dra Trafodion Ariannol

23 Ni chanfûm unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20 nad oeddent yn unol ag awdurdodau nac wedi'u defnyddio at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20.

24 Rhaid i drafodion ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid bod ganddi'r pwerau i gael yr incwm ac ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Ymddiriedolaeth yn meddu ar y pwerau i'w gael neu ei ysgwyddo.

25 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy. Gan nad oedd unrhyw faterion a oedd yn haeddu cael eu hamlygu, ni osodwyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

26 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barnau lle mae arnaf eisiau amlygu materion. Ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon am bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dwy ddyletswydd ariannol ac am nad oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn cyfiawnhau cyhoeddi adroddiad.

27 Fe barhaodd yr Ymddiriedolaeth â'i hanes o fantoli'r cyfrifon yn 2018-19 ac adroddodd ar warged o £45,000. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau i fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod treigl o dair blynedd o 2017-2020 ac i fod â chynllun tymor canolig integredig (CTCI) cymeradwy ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

28 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'i hadnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cwblhau asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac

- adolygu effeithiolrwydd trefniadau atal twyll yr Ymddiriedolaeth.

29 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

## Asesiad strwythuredig

30 Cafodd fy ngwaith asesu strwythuredig ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Fe sicrheais ddull digon pragmatig a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan hefyd effeithio gyn lleied â phosibl ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Roedd ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i gynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

31 Roedd yr asesiad strwythuredig yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

### Trefniadau llywodraethu

32 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn a hithau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achoswyd gan y pandemig. Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ar y cyfan tra mae'n ymateb i COVID-19, gan gynnwys ffocws ar ansawdd; ond gallai wneud gwelliannau pellach o ran y modd y mae'n cofnodi penderfyniadau ac yn rheoli risgiau.**

33 Mae'r Ymddiriedolaeth a'i Bwrdd wedi gweithio'n dda i gynnal busnes y sefydliad wrth ymateb i COVID-19. Yn ei hymateb, bu modd i'r Ymddiriedolaeth adeiladu ar ei Chynllun Pandemig a oedd yn bodoli eisoes, gan sefydlu trefn reoli i wneud penderfyniadau cyflym a gwybodus. Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd wedi cwrdd i oruchwylio agweddau allweddol ar ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19, ynghyd â'r trefniadau gweithredol arferol. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo sefydlu Pwyllgor newydd i gryfhau'r trefniadau partneriaeth â phrifysgolion a phartneriaid allweddol eraill. Mae gwybodaeth yn llifo'n effeithiol oddi wrth Dîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd, ond mae lle i wella'r modd y mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi yn y log penderfyniadau COVID-19. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn cydweithio'n dda ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i fyfyrio ynghylch gwersi o'r pandemig ac i ddysgu ohonynt. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i oruchwylio ansawdd a

diogelwch ei gwasanaethau, gan gynnwys newidiadau a wnaed yn sgîl COVID-19, ac mae'n gwella'r modd y mae'n rheoli risg.

## Rheoli adnoddau ariannol

34 Fe ystyriais berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno. Canfûm fod **gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau a threfniadau adrodd ariannol effeithiol, er bod gwariant mewn perthynas â COVID-19 yn creu risg i fantoli'r cyfrifon yn 2020-21.**

35 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli adnoddau ariannol yn dal i fod yn effeithiol. Cyflawnodd ei dyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragamcanu y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2020-21, er bod hynny'n dibynnu ar gyflawni targedau uchelgeisiol i arbed arian ac ar gael incwm ychwanegol ar gyfer ei gwariant ar COVID-19. Mae rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn gryf ac mae'n rhoi gwybodaeth glir am ei pherfformiad ariannol i'r Bwrdd ei goruchwylio a chraffu arni. Fodd bynnag, o ran COVID-19, mae lle i wella'r prosesau i gymeradwyo gwariant o fewn y drefn reoli a lle i gryfhau'r rheolaethau ar gyfer taliadau ychwanegol i staff. Mae rhai o argymhellion Asesiad Strwythuredig 2019 yn dal heb gael eu rhoi ar waith hefyd, a hynny oherwydd i'r Ymddiriedolaeth atal ei gwaith o ran argymhellion archwilio yn ystod y pandemig. Cafodd dyddiadau diwygiedig i roi'r argymhellion blaenorol ar waith eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2020.

## Cynllunio Gweithredol

36 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i ategu'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fyddai'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. Canfu fy ngwaith fod yr **Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynlluniau gweithredol ymatebol sy'n ystyried yr adnoddau y mae eu hangen ac sy'n cael eu monitro ac yr adroddir arnynt yn rheolaidd, a'i bod wedi parhau i ddatblygu cynlluniau strategol allweddol eraill.**

37 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati'n gyflym i baratoi cynlluniau gweithredol ymatebol sy'n ateb gofynion Llywodraeth Cymru. Mae wedi adnabod yr adnoddau y mae eu hangen arni i gyflawni'r cynlluniau, gan gynnwys gweithlu hyblyg a mwy o faint. Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r risg i'w gweithlu ac yn gwneud newidiadau i gefnogi ei staff. Mae hefyd wedi cyfathrebu'n fewnol yn rheolaidd ac yn effeithiol, a chyflwyno ffyrdd newydd o gefnogi llesiant ei staff. Mae cynlluniau strategol wedi cael eu datblygu, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol,

gan gynnwys undebau llafur a'i chomisiynwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu'r dull a ddefnyddir ganddi i adfer y sefydliad, gan gynnwys adolygu ei chamau strategol, ac mae wedi adfer ei threfniadau i gyflawni ac i adrodd am ei pherfformiad strategol ers mis Gorffennaf 2020.

## Effeithiolrwydd trefniadau atal twyll

38 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a oedd yn disgrifio trefniadau atal twyll yn sector cyhoeddus Cymru. Wedyn cynhaliodd fy nhîm archwiliad mwy manwl ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mis Gorffennaf 2020 fe gyhoeddais Gwella Ein Perfformiad  Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru a oedd yn nodi crynodeb o'm canfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i'r holl gyrff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt i wella'u perfformiad i fynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

39 Er nad oedd y gwaith hwn wedi'i gynnwys yng nghynllun archwilio'r Ymddiriedolaeth, fe wnes i hefyd gyhoeddi adroddiad ychwanegol a oedd yn nodi trefniadau penodol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer atal a chanfod twyll. Canfûm fod **yr Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad clir i atal twyll, bod ganddi drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll a'i bod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.**

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd ar yr Ymerodraeth yn 2020.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Medi |
| Effeithiolrwydd trefniadau atal twyll | Medi |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | Mawrth |

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal ar y gweill yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan ragwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a ragwelir |
|---|---|
| Profi, Olrhain a Diogelu | Rhagfyr 2020 |
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Chwefror 2021<br>Gwaith pellach i gael ei gynnwys fel rhan o gynllun 2021. |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Mehefin 2021 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £151,618 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn gyson â'r ffi a oedd wedi'i nodi yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth 2019-20. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a hefyd<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd. Ni chanfuom unrhyw faterion. |
| Effaith COVID-19<br>Fe allai argyfwng cenedlaethol COVID-19 arwain at oedi sylweddol cyn paratoi ac archwilio'r cyfrifon. Ceir risg y bydd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol e.e. mewn perthynas ag amcangyfrifon a | Byddwn yn trafod eich prosesau cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod | Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth reoli effaith bosibl COVID-19 ar baratoi'r cyfrifon ariannol yn dda ac fe'u cyflwynodd i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau.<br><br>Mae'n glod sylweddol i'r tîm cyfrifon na fu unrhyw newid yn ansawdd y |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| phrisiadau, yn cael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau. | bylchau mewn trefniadau. | datganiadau ariannol na'r papurau gwaith ategol a gawsom i'w harchwilio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol |
| Bu nifer o newidiadau i'r uwch dîm rheoli a chyfarwyddwyr anweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir risg na fydd y newidiadau hyn yn cael eu datgelu'n gywir yn Adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio'n gwneud gwaith archwilio cynnar ar gyflawnrwydd a chywirdeb Adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Byddwn hefyd yn ceisio sicrwydd priodol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Ymddiriedolaeth sy'n bwriadu adolygu Adroddiad drafft yr Ymddiriedolaeth ar Gydnabyddiaeth Ariannol cyn ei fod yn cael ei gyflwyno i ni i gael ei archwilio. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd. Ni chanfuom unrhyw faterion. |
| Mae dyletswydd ariannol ar Ymddiriedolaethau'r GIG i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r ddyletswydd hon yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon gan reolwyr sydd wedi'u | Bydd fy nhîm archwilio'n canolbwyntio'i waith profi ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys gwyrduedd adrodd megis dyfarniadau ac amcangyfrifon. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd. Ni chanfuom unrhyw faterion. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| cynnwys yn y datganiadau ariannol gynnwys gwyrdueddiadau mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. Lle mae'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol i amlygu'r methiant. | | |
| Ar 18 Rhagfyr 2019 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'y cynllun yn talu' mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn ar gyfer staff clinigol. | Rydym yn ystyried goblygiadau'r cyfarwyddyd (y cyntaf yng Nghymru ers 1999) o ran triniaeth gyfrifyddu ac archwilio ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd wrthi'n mynd i'r afael â'r un mater yn NHS England. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd.<br><br>Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnwys datgeliad ychwanegol o fewn Nodyn 24 i'r datganiadau ariannol mewn perthynas â'r mater hwn ac fe wnaethom gynnwys paragraff pwyslais ar fater yn ein hadroddiad archwilio i dynnu sylw at hyn. |
| Roedd ein cynllun archwilio gwreiddiol yn cynnwys cyfeiriad at IFRS 16 – Prydlesi, yr oedd disgwyl iddi gael ei chyflwyno yn 2020-21. Mae hyn bellach wedi cael ei ohirio tan 2021-22. | Bydd fy nhîm yn parhau i adolygu'r sefyllfa. | Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer IFRS 16 ac rydym yn cadarnhau bod cynnydd da wedi cael ei wneud. Mae'r Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda i roi'r safon gyfrifyddu newydd ar waith. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.